Hawdd ei Ddeall

disability wales
anabledd cymru

# Am y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru

## Arian i helpu pobl anabl i sefyll am etholiad yng Nghymru



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Anabledd Cymru.** Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **'Mynediad i gronfa Mynediad i Swydd Etholedig'.**

**Chwefror 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall, ond efallai y byddwch chi angen cymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi cael ei ysgrifennu mewn blwch o dan y gair.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

**Ffôn:** 029 2088 7325

**E-bost:** info@disabilitywales.org

Cafodd y ddogfen yma ei gwneud yn un hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

# Cronfa Mynediad i Swydd Etholiadol Cymru



Mae **Llywodraeth Cymru** yn dechrau'r **Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol** i helpu pobl anabl i sefyll am **etholiad**.




**Etholiad** ydy pan mae pawb yn pleidleisio'r i'r person maen nhw eisiau i'w cynrychioli nhw.



Mae'r **Gronfa Mynediad i Swydd Etholiadol** yn gallu cael ei defnyddio i dalu am bethau sydd yn helpu pobl anabl i gael cyfle cyfartal. Er enghraifft, offer arbennig a chyfrifiaduron.



Dechreuodd Llywodraeth Cymru y gronfa yma ar gyfer etholiad **Senedd Cymru ym mis Mai 2021.**



Fe fydd y gronfa ar gael nawr i bobl sydd yn sefyll etholiadau **Llywodraetyh Leol ym mis Mai 2022.**

Fe fydd **Anabledd Dysgu** yn rheoli'r Gronfa **Mynediad i Swydd Etholedig**. Fe fydd yn:



- dweud wrth bobl am y gronfa



- rhoi cyngor i bobl am y gronfa a sut i wneud cais

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais am y gronfa?

**Rydych chi'n gallu gwneud cais os:**



- rydych chi yn bwriadu sefyll fel **ymgeisydd** yn **etholiadau** **Llywodraeth Leol Cymru yn 2022.** Mae hyn yn gallu bod fel cynghorydd mewn cyngor dinas neu sir, neu ar gyfer eich cyngor cymuned neu gyngor tref.

> **Ymgeisydd** ydy person sydd yn rhoi eu hunain ymlaen ac yn gofyn i bobl bleidleisio iddyn nhw mewn **etholiad**.



- rydych chi'n anabl



- rydych chi'n sefyll am **etholiad** i **blaid wleidyddol** neu yn **annibynnol**



Mae rhai **ymgeiswyr** yn aelod o blaid wleidyddol, er enghraifft y Blaid Lafur neu'r Blaid Werdd.



Mae **ymgeiswyr** eraill yn **annibynnol** – mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n rhan o blaid wleidyddol.

# Am beth rydych chi'n gallu defnyddio'r gronfa

**Mae'r gronfa yn gallu cael ei defnyddio i dalu am bethau fel:**



- trafnidiaeth, os nad ydych chi'n gallu defnyddio trafnidiaeth fel bysus a threnau



- meddalwedd darllen sgrin ac offer cyfrifiadur arall




- hyfforddiant i ddefnyddio offer cyfrifiadur a meddalwedd



- Dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydeinig a gwybodaeth mewn Braille, Hawdd ei Ddeall a sain



- cymorth personol.

**Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o bethau mae'r gronfa yn gallu talu amdanyn nhw:**



Mae Dyfrig yn berson gyda cholled golwg difrifol. Mae'n ei chael yn anodd cerdded o gwmpas pan mae allan yn rhannu taflenni ac yn siarad gyda phobl am yr **etholiad**

Mae'n gallu gwneud cais am arian o'r gronfa i dalu am gynorthwy-ydd personol i'w helpu pan mae allan yn gwneud ei waith.



Mae Bethan yn defnyddio cadair olwyn. Mae'n anodd iddi ddefnyddio bysus i fynd o gwmpas ei hardal leol i siarad gyda phobl a hyrwyddo ei hun fel **ymgeisydd**

Mae hi'n gallu cael arian o'r gronfa i dalu am dacsi.




Mae Habib yn berson gyda dyslecsia. Mae'n ei chael yn anodd i ddarllen ac ateb e-byst gan bleidleiswyr.

Mae'n gallu cael arian o'r gronfa i dalu am ddarllenydd sgrin iw helpu i ddarllen ei e-byst.

# Sut i wneud cais




Rhaid i chi edrych ar wefan y **Comisiwn Etholiadol** www.electoralcommission.org.uk i weld os ydych chi'n **gymwys** i sefyll yn yr **etholiad**.



**Cymwys** ydy bod gennych chi hawl i wneud rhywbeth, ac yn gallu gwneud rhywbeth, oherwydd eich bod chi'n ateb rhestr o feini prawf.

Y Comisiwn Etholiadol

Y **Comisiwn Etholiadol** ydy'r corff sydd yn gwneud yn siŵr bod **etholiadau** yn deg. Maen nhw'n edrych i weld nad ydy **ymgeiswyr** yn gwario gormod ar eu hymgyrchoedd **etholiad**.



Os ydych chi'n **gymwys** i sefyll yn yr **etholiad** fe ddylech chi gysylltu ag **Anabledd Cymru**.

# Sut byddwn ni'n gwneud ein penderfyniad




Fe fyddwn ni'n meddwl am ba fath o gymorth rydych chi ei angen, a faint o arian rydych chi ei angen.



Fe fyddwn ni'n rhoi'r wybodaeth yma gyda'i gilydd mewn dogfen.



Fe fydd rhaid i chi ddweud wrthyn ni os ydych chi'n cytuno â'r ddogfen.



Fe fyddwn ni'n rhoi'r ddogfen i'r **Bwrdd Gwneud Penderfyniad**. Fydd y ddogfen ddim yn dweud pwy ydych chi.



Fe fydd gan y bobl ar y **Bwrdd Gwneud Penderfyniad** wybodaeth a phrofiadau gwahanol.



Fe fyddan nhw'n edrych i weld eich bod chi'n **gymwys** i wneud cais i'r gronfa yma.



Os ydyn ni'n penderfynu rhoi arian i chi fe fyddwn ni'n anfon:

- llythyr dyfarnu atoch chi
- copi o'n telerau ac amodau.



Llofnodwch y telerau ac amodau a'i anfon yn ôl aton ni.



Os ydyn ni'n penderfynu peidio eich cefnogi gydag arian o'r gronfa yma fe fyddwn ni'n ysgrifennu atoch chi i ddweud pam.

**Os oes gennych chi gwestiwn rydych chi'n gallu cysylltu â ni ar:**



**Ffôn:** 029 2088 7325



**E-bost:** accesstopolitics@disabilitywales.org